Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 16eg Mehefin, 2020 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Rhithiol |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 a 26 MAI 2020 | | | 3 - 12 |
| 6 | CYFRIFON TERFYNOL 2019/20 - ALLDRO REFENIW | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 13 - 37 |
| 7 | RHAGLEN GYFALAF 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 38 - 45 |
| 8 | COVID-19: YSTYRIAETHAU FFIOEDD PENODOL | Cyng. Ioan Thomas | Dafydd Edwards a Ffion Madog Evans | 46 - 50 |
| 9 | SEFYDLU'R HAWL I'R CORFF CYMERADWYO SYSTEMAU DRAENIO CYNALIADWY I GODI FFI AM DDARPARU GWASANAETH YMGYNGHOROL CYN-GAIS | Cyng. Catrin Wager | Emlyn Jones | 51 - 58 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 19 MAI 2020**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams ac Aled Wyn Jones (Aelod Lleol)

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirion)
Eitem 8: Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) a Dafydd Gareth Jones (Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff)
Eitem9: Dafydd Gibbard (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod. Derbyniwyd diweddariad o ran gwasanaethau ailgylchu'r Cyngor yn dilyn cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y bydd modd i ganolfannau ailgylchu ail agor.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu

**5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 28 EBRILL 2020**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2020 fel rhai cywir.

## 6. YSGOL LLANAELHEARN

Cyflwynwyd gan Cyng. Cemlyn Williams

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i gadarnhau'n derfynol i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2-2- a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plennydd, Y Ffôr o 1af Medi 2020, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cabinet ar 5 Tachwedd wedi penderfynu ar gynnal cyfnod ymgynghori statudol yn unol a Deddf Safonau a Threfniadau Ysgolion ar y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn. Mynegwyd fod y cyfnod statudol bellach wedi dod i ben a nad oedd dim gwrthwynebiad i'r cynnig. Ychwanegwyd drwy nodi fod yr adran o ganlyniad yn credu mai cau yr ysgol yw'r opsiwn priodol. Diolchwyd i'r gymuned, llywodraethwyr a rhieni am y trafodaethau aeddfed a phriodol gan bwysleisio ei bod wedi bod yn drafodaeth anodd ar adegau.

Nododd yr Aelod Lleol ei bod yn drist iawn fod yr ysgol yn cau er ei hanes hir a disglair. Mynegodd os yw pobl am gadw eu hysgolion lleol ar agor fod angen iddynt eu defnyddio, diolchwyd i'r staff am eu holl waith.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i'r Aelod Lleol am ei gyfraniad gwrthrychol yn ystod y trafodaethau ac am gyfraniad i'r trafodaethau.

## 7. EFFIATH COVID-19 AR GYLLIDEB 2020/21

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Ioan Thomas

**PENDERFYNIAD**

Nodi'r bwlch posibl yng nghyllideb 2020/21 a chefnogi ymdrechion yr Arweinydd a swyddogion i sicrhau opsiynau ariannu addas gan Lywodraeth Cymru.

Oherwydd y colledion ariannol ym mlwyddyn gyntaf (2019/20) Byw'n Iach yn sgil Covid-19, a'r rhagdybiaeth y bydd colledion pellach yn parhau yn 2020/21 am yr un rheswm, fod y Cabinet yn cadarnhau

1. Ei fod yn fodlon darparu y gefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal Gwasanaethau Cwmni'n Byw'n Iach yn y man cyntaf hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21.
2. Awdurdodi'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Economi a Chymuned, ac yn unol â'r ddarpariaeth yn y Cytundeb gyda Chwmni Byw'n Iach (Atodlen 4), i ddarparu llythyr o sicrwydd i'r cwmni a chytuno ar amodau a chynnwys y

gefnogaeth.
3. Fod y Cabinet yn derbyn adroddiad penodol ar y trefniadau fel rhan o adroddiadau adolygu cyllidebau y Cyngor.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y sefyllfa yn un fregus gydag incwm wedi lleihau a gwariant yn uwch yn ystod y cyfnod argyfwng. Ychwanegwyd fod hyn i'w gweld ym mhob awdurdod lleol.

Nododd y Pennaeth Cyllid fod Llywodraeth Prydain wedi cynnig ariannu rhan o'r golled mewn incwm, ynghyd â chostau ychwanegol, i awdurdodau lleol yn Lloegr. Mynegwyd fod gwahanol adrannau o Lywodraeth Cymru yn trafod gyda'i gilydd a gobeithir y bydd cyhoeddiad yn fuan. Ategwyd fod colled incwm y Cyngor am 3 mis oddeutu £5m, ac os fydd sefyllfa'r argyfwng yn parhau mi fydd y golled incwm oddeutu £10m dros 6 mis. Pwysleisiwyd fod y golled yn ddibynnol ar effaith y cyfyngiadau yn ystod y cyfnod.

Mynegwyd fod trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru, a'i fod yn anodd i'r Cyngor gynllunio yn ariannol hyd nes bydd gwybodaeth gan y Llywodraeth faint o grant disgwylir ei dderbyn, a pa mor hir y bydd yr argyfwng yn parhau.

Trafodwyd sefyllfa ariannol cwmni Byw'n Iach yn sgil cyfyngiadau'r argyfwng Covid-19, yn 2019/20 a 2020/21, a phenderfynwyd fod y Cyngor yn cynnig cefnogaeth iddynt yn sgil effaith yr argyfwng.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod angen galw ar Lywodraeth Cymru i gamu ymlaen ac i gefnogi'r Cyngor i warchod ei thrigolion.
- Pwysleisiwyd fod y cyfnod wedi dangos gallu'r Cyngor i ymateb a gweithredu ar fyrder i edrych ar ôl ei thrigolion, ynghyd ag amlygu pwysigrwydd gwasanaethau darparu.

## 8. DATGANIAD TECHNEGOL RHANBARTHOL AR AGREGAU, DRAFFT AIL ADOLYGIAD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Griffith

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr Ail Adolygiad o'r Datganiad Technoleg Ranbarthol ac i awdurdodi'r Pennaeth Adran Cynorthwyol i gyflwyno cadarnhad o'r gymeradwyaeth y Cabinet i Lywodraeth Cymru.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Ychwanegodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran ei bod yn ofyn i baratoi ac adolygu'r datganiadau er mwyn

darparu strategaeth ar gyfer cyflenwad digonol i agregau adeiladau ar gyfer y dyfodol. Nodwyd fod y datganiad yn argymell faint o agregau sydd angen i bob awdurdod gynllunio ar ei gyfer yn y Cynlluniau Datblygu Lleol. Pwysleisiwyd wrth edrych ar Wynedd o ran y datganiad ac ar sail fod cyflenwad wrth gefn o ran agregau a bod yr adran yn ymwybodol o ardaloedd eraill o fewn y sir ble mae agregau yn bosib nad oes angen i'r Cyngor wneud dim byd ar frys. Mynegwyd yn y tymor hir y bydd angen ymgorffori'r argymhelliad sydd i'w gweld yn y datganiad wrth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn ystod 2021.

Mynegwyd fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal a bod yr ymatebion i'w gweld yn atodiad 2 yr adroddiad.

## 9. AIL STRWYTHURO'R ADRAN TAI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd ariannu'r gost net ychwanegol o £150,500 drwy ddefnydd o gynnyrch treth y Premiwm Treth Cyngor ar dai gwag ac ail gartrefi, er mwyn gwireddu newidiadau i strwythur staffio'r Gwasanaeth Tai, fel amlygwyd ym mharagraffau 3.4 a 3.7 o'r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y sefyllfa dai yn yng Ngwynedd yn argyfyngus gyda niferoedd digartref yn codi ynghyd a nifer uchel o dai'r sir yn cael ei defnyddio fel tai haf. Mynegwyd yn dilyn Adolygiad Rheolaethol y llynedd penderfynwyd creu adran Tai ac Eiddo. Pwysleisiwyd fod yr adran yn dangos potensial gyda swyddogion yn awyddus i wneud gwahaniaeth.

Nodwyd fod gwaith wedi ei wneud i edrych ar strwythur yr adran a bod angen arian er mwyn gwireddu newidiadau i'r strwythur staffio. Pwysleisiwyd os na fydd ail strwythuro ni fydd modd newid y sefyllfa. Ychwanegwyd fod yr adran wedi dod o hyd i £200k o arbedion drwy newid cyflenwyr yn y maes eiddo ac mae posibilrwydd o ddefnyddio'r arian hwn er mwyn ariannu'r ail strwythuro.

Ychwanegodd Pennaeth yr Adran Tai mai dim ond 5 mis oed oedd yr adran pan fu i argyfwng Covid-19 daro. Mynegwyd yn ystod y 5 mis fod y Pennaeth wedi cael amser i ddysgu mwy am y maes tai ac i adnabod mwy o opsiynau a chynlluniau newydd. Nodwyd y bydd angen i'r adran fod yn barod wrth fynd yn ôl i normalrwydd gan fod posibilrwydd cryf y bydd y sefyllfa yn waeth, gan fod niferoedd digartref yn parhau i godi yn ystod y cyfnod argyfwng. Ategodd fod yr ailstrwythuro yn gosod seiliau ar gyfer y dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod problemau tai yn broblem sydd i'w gweld gan bob Cynghorydd ar draws y Sir a dangoswyd cefnogaeth i'r ail strwythuro. Amlygwyd yr argyfwng tai yng Ngwynedd yn benodol digartrefedd cudd drwy orlenwi tai gan bwysleisio fod y sefyllfa wedi bod yn waeth yn ystod y

cyfnod ble mae cyfyngiadau. Nododd un Aelod Cabinet ei bod yn gwrthwynebu'r cais i ariannu drwy'r premiwm Treth Cyngor ar dai gwag ac ail gartrefi, gan fod yr arian hwnnw ar gael i gael tai i deuluoedd lleol. Holwyd pryd y bydd cynllun gweithredol ar gael a nodwyd fod Cynllun Gweithredu yn ei le ac y bydd yn cael ei rannu mor fuan a bo modd.

- Mynegwyd yr eironi fod argyfwng tai yng Ngwynedd, ond nad oes prinder tai i'w gweld yma. Nododd fod defnyddio canran bychan iawn o'r Premiwm Treth Cyngor yn ddefnydd dilys o'r arian.
- Holwyd o ran yr 1% y bydd y Cyngor yn ei dderbyn o unrhyw arbedion a gaiff ei gwireddu gan awdurdod arall, os yn defnyddio Fframwaith Gwynedd, os bydd hwn yn flynyddol neu yn un taliad. Mynegwyd nad ydynt yn gwbl sicr eto gan ei bod yn ddibynnol ar faint o siroedd fydd yn rhan o'r Fframwaith. Ychwanegwyd y bydd modd cael mwy o arbedion gan fod yr arbedion yma am gyflenwad nwy yn unig.
- Nododd y Prif Weithredwr mai cam un oedd cael Pennaeth i'r adran newydd a rhan dau oedd cynnal adolygiad i sicrhau fod yr adran yn gwneud y mwyaf o'r gyllideb oedd ar gael. Pwysleisiwyd fod achos cryf iawn yma o ganlyniad i argyfwng tai'r sir gan fod 10% o stoc tai yn cael ei ddefnyddio fel ail gartrefi ac o ganlyniad nid oes cyflenwad tai ar gael. Nodwyd fod angen i Lywodraeth Cymru chwarae ei ran yn amddiffyn cynnyrch treth o'r premiwm. Mynegwyd fod ariannu'r swyddi o'r Premiwm Treth Cyngor yn ddoeth, gan fod tebygolrwydd bydd angen yr arbedion ar gyfer osgoi toriadau gwasanaeth wrth fantoli cyllideb y Cyngor, yn sgil gwariant cyhoeddus yn ymateb i argyfwng Covid-19.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2:30 y.h.

**CADEIRYDD**

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 26 MAI 2020

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 5: Arwel Owen (Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo)
Eitem 7: Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Craig ab Iago

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYS

Bu i'r Cadeirydd nodi ei fod wedi cytuno mater brys i'w drafod. Roedd yn fodlon fod y cyd destun yn golygu fod angen ystyried y mater yn y cyfarfod yma. Bu i'r aelodau bleidleisio ar y penderfyniad i gau y allan y wasg a'r cyhoedd gan fod yr eitem yn eithriedig.

**EITEM FRYS - SEFYLLFA CARTREF**

Cyflwynwyd yr ardoddiad gan Cyng. Dafydd Meurig yn adrodd ar yr amgylchiadau oedd yn bodoli a'r opsiynnau ar gyfer ymateb. Rhoddwyd ystyriaeth i rol budd-ddeiliaid a rol posib y Cyngor yn y sefyllfa.

**PENDERFYNIAD**

Datganwyd parodrwydd y Cabinet i ariannu ymyrraeth yn unol â'r adroddiad a chymorth ymarferol er mwyn cynnal darpariaeth y cartref gofal dros y cyfnod heriol presennol er gwrachod lles y preswylwyr.

Nodwyd fod y penderfyniad uchod yn ddarostyngedig i gyrraedd cytundeb priodol gyda Chymdeithas Dai a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar amodau'r ymyrraeth a chyfraniadau.

Penderfynwyd dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gytuno telerau.

Bod y gwaith o baratoi achos busnes yn unol â phenderfyniad 18fed Chwefror 2020 yn parhau ac yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn galendr

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu

## 5. COVID-19: ADFER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dilwyn Williams

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd comisiynu'r Bwrdd Adfywio a'r Bwrdd Cefnogi Pobl i ystyried y canlynol -

- Y meysydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn nhermau'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd yn y meysydd hynny y mae'r byrddau yn gyfrifol amdanynt, gan gadw golwg ar y cyfeiriad yr oedd y byrddau eisoes yn ei ystyried cyn i'r argyfwng godi;
- pa weithrediadau sydd angen eu cyflawni yn y meysydd hynny yn y tymor byr a'r tymor canolig ac i adrodd yn ôl i'r Cabinet gydag argymhellion,
- Yn unol â Chynllun Cydraddoldeb y Cyngor ein bod yn rhoi ystyriaeth i anghenion grwpiau nodedig wrth wneud penderfyniadau yn y maes adfer.

Comisiynu'r Grŵp Rheoli i ystyried pa faterion corfforaethol sydd angen ystyriaeth yn y tymor byr a'r tymor canolig wrth i ni symud ymlaen at y "normal newydd" ac i adrodd yn ôl i'r Cabinet os cyfyd yr angen am benderfyniad fel yn berthnasol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod llawer o wersi i'w dysgu yn dilyn y cyfnod hwn a heriau mawr yn parhau os yw cyfyngiadau yn parhau. Nodwyd er bod y Cyngor yn parhau i geisio dygymod ag ymateb i'r argyfwng mae angen trafod adfer yn ogystal. Pwysleisiwyd y bydd y daith yn hir ar gyfer symud ymlaen i gyfnod 'normal' newydd i rai adrannau ac efallai y bydd y 'normal' newydd yn gwbl wahanol i'r gorffennol yn dilyn dysgu gwersi yn ystod y cyfnod argyfwng.

Mynegwyd fod rhai meysydd angen eu blaenoriaethu er mwyn cael ffocws penodol fel yr economi gan fod trawiad mawr wedi bod i'r economi leol. Nodwyd y bydd y Llywodraeth yn edrych ar ffordd ymlaen ond fod angen i'r Cyngor fod yn

dylanwadau ar y cynlluniau yma. Ychwanegwyd fod y Grŵp Ymateb i'r Haint rhanbarthol yn creu Grŵp Cydlynu Adferiad rhanbarthol a fydd yn cyd-gordio gwaith adfer ond pwysleisiwyd mai mater i sefydliadau unigol fyddai cymryd penderfyniadau ar yr hyn y roeddent yn dymuno ei wneud. Nodwyd fod y Grŵp Cydlynu wedi cyfarfod wythnos diwethaf ac wedi sefydlu maes llafur ac amcanion yn ymwneud a sicrhau rhaglen adfer dros y gogledd. Mynegwyd fod angen sicrhau bod dyheadau lleol a phwysleisiwyd yn hynny o beth y bydd rôl benodol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. .

O ran Trefniadau Gwynedd amlygwyd opsiynau gwahanol gan fynegi y buasai modd gofyn i'r byrddau rhaglen adfywio a chefnogi pobl sydd wedi bod yn edrych ar drawsffurfio gwasanaethau i feddwl beth sydd angen i'r Cyngor ei wneud i'w alluogi i ddod yn ôl i'r 'normal' newydd. Pwysleisiwyd y bydd hyn yn gyfle i'r byrddau ganolbwyntio ar feysydd adfywio a chefnogi pobl ac yna adrodd yn ôl i'r Cabinet er mwyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y cyfnod wedi bod yn heriol sydd wedi amlygu ffyrdd gwahanol o weithio. Mynegwyd ei bod yn sylfaenol fod y cyngor yn nodi beth sydd wedi ei ddysgu a beth fydd yn cael ei ddefnyddio yn y 'normal' newydd.
- Amlygwyd fod angen i'r Llywodraeth roi digon o amser i'r Cynghorau Lleol i ail agor gwasanaethau er mwyn canolbwyntio a sicrhau diogelwch.
- Pwysleisiwyd fod angen blaenoriaethu cydraddoldeb gan fod heriau gwahanol i grwpiau gwahanol.
- Holwyd o ran y byrddau fod sôn wedi bod am greu Bwrdd Hinsawdd ond fod Covid-19 wedi ei amlygu yn y cyfnod datblygu. Nodwyd fod yn rhan o'r adfer a bod cynlluniau ar gyfer cynnal gweithdy rhithiol gydag aelodau er mwyn creu tasglu i ddechrau edrych ar y gwaith.
- Mynegwyd ei bod yn dda nad yw'r normal newydd wedi ei ddiffinio gan y Prif Weithredwr ac y bydd angen i'r Byrddau edrych yn bellach na'r normal newydd gan y bydd cynlluniau megis Addysg Ôl-16 angen edrych ar gynlluniau amgen yn dilyn y cyfnod Covid.
- Holwyd o ran materion cyfansoddiadau y bydd newidiadau mewn trefniadau pwyllgorau, nodwyd y bydd darn o waith yn edrych ar bwyllgorau yn mynd i'r grŵp busnes.

**6. ARGYFWNG COVID-19 - SEFYLLFA ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cyflwynwyd gan Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNIAD**

I nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod llawer o gartrefi preswyl wedi cael achosion uchel o'r haint Covid-19. Pwysleisiwyd fod yr adran wedi bod yn awyddus i fod yn agored a tryloyw ond fod canllawiau cenedlaethol wedi rhwystro'r adran i fod mor agored am rai achosion ar ddechrau'r cyfnod argyfwng.

Nodwyd yn ogystal ar ddechrau'r argyfwng fod cael offer PPE wedi bod yn broblem ond bellach fod yr adran, gyda chymorth yr Adran Tai ac Eiddo, a threfn gadarn yn ei le. O ran profi nodwyd ei bod wedi cymryd amser i gael trefniadau yn ei lle gan fod derbyn y canlyniad wedi bod yn broblem ar ddechrau'r argyfwng. Ychwanegwyd yn benodol wrth edrych ar gartrefi gofal ble roedd profion preswylwyr a staff yn cael ei gwneud drwy ddwy drefn wahanol. Bellach mae'r trefniadau yma wedi ei haddasu a pryderon yn lleihau. Diolchwyd i staff am eu gwaith caled yn ystod y cyfnod.

Ychwanegodd y Pennaeth Adran Oedolion fod pethau'n newid yn aml ond fod Gwynedd yn un o'r Cynghorau cyntaf i nodi nifer uchel o achosion mewn cartrefi preswyl. Pwysleisiwyd fod angen bod yn hynod wyliadwrus o'r cyfnod i ddod. Ychwanegwyd fod niferoedd sydd yn cael ei chyfeirio at yr adran yn prysur ddod yn ôl i'r arferol yn dilyn cwymp yn ystod y cyfnod ble mae'r cyfyngiadau wedi bod yn eu lle. Pwysleisiwyd fod staff wedi sicrhau fod trefniadau mewn lle i ymateb i achosion ac mae staff wedi bwrw ati i sicrhau fod gwasanaethau yn parhau. Ategwyd ei bod wedi bod yn gyfnod hir gyda llawer o staff heb gymryd gwyliau ac mae y bydd hyn yn effeithio ar unigolion. Wrth gynllunio ymlaen, nododd fod llawer o wersi wedi ei dysgu mewn cyfnod byr o amser ac y bydd angen parhau i weithio'r un modd mewn rhai achosion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i'w gwasanaeth am ei gwaith caled yn ystod y cyfnod y benodol y staff rheng flaen.
- Diolchwyd am gyfeirio at straen ar staff gan ei fod wedi bod yn straen ar bawb o fewn y sir. Holwyd os bydd gwaith iechyd meddwl yn cael ei uchafu. Nodwyd nad yw'r adran ar hyn o bryd yn ymwybodol o faint y gwaith iechyd meddwl fydd angen ei wneud ond fod y gwasanaeth yn ceisio creu rhwydweithiau a rhoi arweiniad i bobl mewn cyfnod anodd ond maent yno gystal yn ymwybodol o'r heriau mawr fydd o'i blaenau.
- Diolchwyd yn ogystal i staff gofal yn y sector breifat gan nodi fod y cyswllt rhwng cartrefi preswyl preifat a'r Cyngor wedi gwella yn ystod y cyfnod gyda sgyrsiau parhaus yn digwydd a gwybodaeth gadarn yn cael ei rannu. Ychwanegwyd fod manteision wedi amlygu o ddatblygu'r berthynas fel mwy o gefnogaeth ar gael i ymateb i'r argyfwng.
- Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei diolch i'r staff o fewn yr adran, yn y sector breifat ynghyd ag adrannau eraill o fewn y Cyngor Pwysleisiwyd fod heriau mawr wedi bod ond fod llawer gyd-weithio wedi digwydd ar draws y gogledd. Amlygwyd pwysigrwydd i beidio gollwng statws y sector gofal yn dilyn yr argyfwng.

— Pwysleisiwyd fod angen dathlu'r llwyddiannau gan gofio am y methiannau. Ychwanegwyd eu bod yn gobeithio y bydd pob lefel o lywodraeth yn dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2:50 y.h.

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 MEHEFIN 2020

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyfrifon Terfynol 2019/20 – Alldro Refeniw

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

**Gofynnir i'r Cabinet:**

1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2019/20.

1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen** (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn **Atodiad 1**), sef -

| **ADRAN** | **£'000** |
|---|---|
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **0** |
| **Plant a Theuluoedd** | **100** |
| **Addysg** | **(96)** |
| **Economi a Chymuned** | **67** |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **100** |
| **Amgylchedd** | **(100)** |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **(11)** |
| **Tai ac Eiddo** | **83** |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **(50)** |
| **Cyllid** | **(70)** |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **(100)** |

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2)** –

- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £3,259k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2020/21.

- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £447k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i 2020/21 i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2020/21.

- Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol argymhellir cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, a symud (£70k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2019/20.

- Ar gyllidebau Corfforaethol, defnyddio (£1,012k) o'r tanwariant net i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2019/20.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd a darpariaethau penodol:

- fel a amlinellir yn **Atodiad 3** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd a darpariaethau, cynaeafu (£801k) o gronfeydd a (£24k) o ddarpariaethau gan ddefnyddio'r cyfanswm o (£825k) i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario yn 2019/20.

- Cyllido gweddill y gorwariant adrannol o (£1,799k) sydd ar ôl i'w gyllido o Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

2.1 Yr hyn sydd yn amlwg iawn o edrych ar sefyllfa derfynol 2019/20 yw'r pwysau sylweddol sydd yn wynebu'r maes gofal a'r maes gwastraff, gwelir hefyd arwyddion fod rhai trafferthion cyflawni arbedion, gan ein bod yn ceisio isafu'r ardrawiad ar drigolion Gwynedd drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'n llawer anoddach na thorri gwasanaethau.

Rydym eisoes yn gwybod fod y flwyddyn ariannol 2020/21 yn mynd i fod yn un heriol yn ariannol, fel sydd sydd eisoes wedi ei egluro yn yr adroddiad effaith Covid-19 ar gyllideb 2020/21 a gyflwynwyd i'r Cabinet 19/05/2020.

2.2 Felly, **gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2019/20. Mae'r Adran Gyllid eisoes ers 3 Mehefin wedi cynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol cyn y dyddiad statudol o 15 Mehefin**.

**3. Adrannau'r Cyngor**

3.1 **Ar y cyfan, cadarnhaf fod dros hanner yr adrannau wedi medru cadw o fewn eu cyllidebau eleni.** Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig". Yn **Atodiad 2**, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion rheiny wedi'u hamlygu er ystyriaeth uchod yn 1.3.

3.2 Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw diwethaf a wnaethpwyd ar sefyllfa ddiwedd Tachwedd, rhagwelwyd gorwariant tebygol o £4.6 miliwn ar adrannau'r Cyngor. Ers hynny, bu lleihad o £1.1 miliwn i ffigwr cymharol yr adrannau i £3.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn, sef gostyngiad o £0.7 miliwn gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a gostyngiad o £0.4 miliwn gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Ymhellach, mae £1 miliwn o danwariant ar gyllidebau Corfforaethol, sydd felly yn lleihau'r bwlch i £2.5 miliwn.

3.3 Ar ddiwedd y flwyddyn mae sefyllfa ariannol dros hanner yr adrannau yn tanwario, ac wedi'i ragamcanu'n gywir yn ystod 2019/20. Gwelwyd leihad yn lefel y gorwariant gan yr **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**, gyda sefyllfa'r **Adran Addysg** ac **Ymgynghoriaeth Gwynedd** yn well na'r hyn a ragwelwyd. Ond nodaf y bu gwelliant nodedig yn sefyllfa ariannol yr **Adran Oedolion**, yn dilyn derbyniad ac ail gyfeirio grantiau yn hwyr yn y flwyddyn gan y Llywodraeth.

3.4 Bu cynnydd yn y tueddiad gorwariant ar wasanaethau gweithredol, lleoliadau, Ôl-16, ac Arbenigol / Derwen gan yr Adran **Plant a Theuluoedd** ac felly adroddir ar orwariant o £3.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, yn gynnydd o £200k o'r £3.2 miliwn a ragwelwyd yn yr adolygiad ddiwedd Tachwedd. Er nad yw'r sefyllfa o orwariant yn y maes plant yn unigryw i Wynedd, ond yn hytrach yn ddarlun a welir ar draws awdurdodau, mae'r sefyllfa'n un pryderus.

3.5 Mae bron i £2 miliwn o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r **Adran Plant a Theuluoedd** yn 2020/21 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol. Ond, fod y methiant i wireddu arbedion yn fater sydd yn parhau i fod angen ei ddatrys, ond mae bwriad i gyfarch hyn mewn adroddiad dilynol i'r Cabinet.

3.6 Y maes gwastraff yn parhau i fod yn gorwario yn sylweddol gan yr Adran **Priffyrdd a Bwrdeistrefol**, ond nifer o ffactorau ar draws yr adran yn gyfrifol am ostyngiad yn lefel y gorwariant i £547k erbyn diwedd y flwyddyn.

3.7 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, fydd yn cymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae dau gais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol, ac un adran gyda sefyllfa tanwariant sydd uwchlaw'r trothwy £100,000 ar gau cyfrifon 2019/20, ac felly gyda tanwariant i'w gynaeafu.

3.8 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2019/20 yn unig.

3.9 Yn y mwyafrif o'r cyllidebau lle bu gorwariant yn 2019/20, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r anghenion a chyfleon perthnasol yng nghylch cyllidebu 2020/21, ac mae'r mwyafrif o'r materion parhaol hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2020/21 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

## 4. Ysgolion

4.1 Mae rhan o **Atodiad 2** yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi cynyddu o £4m yn 2018/19 i £4.3m yn 2019/20. Gwelwyd cynnydd cyffredinol ym malansau ysgolion y sector uwchradd a chynnydd o £430k ym malansau 43 ysgol gynradd ond gostyngiad o £416k mewn balansau 40 ysgol gynradd. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

4.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).

4.3 Mae cyfanswm diffygion ariannol ysgolion wedi cynyddu o £207,106 (4 Cynradd, 2 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2019 i £239,646 (2 Cynradd, 1 Dilynol, 2 Uwchradd) ar 31 Mawrth 2020. Cadarnhaf y bydd yr Uned Gyllid berthnasol hefyd yn sicrhau y bydd penaethiaid a chyrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda nhw.

## 5. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

5.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un-tro ar nifer o benawdau'r gyllideb Gorfforaethol eleni, fel y nodir yn rhan olaf **Atodiad 2**. Fel yr argymhellir yn rhan 1.3 uchod, bydd (£1,012k) o'r tanwariant net yma ar gael i liniaru'r gorwariant gan yr Adran Plant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

5.2 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd a darpariaethau penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd rhai blynyddoedd yn ôl. Llwyddodd yr adolygiad yma i gynaeafu £825k o adnoddau, fel amlinellir yn **Atodiad 3**.

5.3 Mae'r cyfan o'r £825k i'w ddefnyddio i gynorthwyo i gyllido'r sefyllfa gorwariant gan yr adrannau.

5.4 Gyda chefnogaeth y Cabinet, os defnyddir y tanwariant fel yr argymhellir uchod, ynghyd â defnyddio'r £825k o'r cynaeafu cronfeydd a darpariaethau, £1.799 miliwn o gyllid sydd ei angen yn weddill i fantoli'r sefyllfa ariannol 2019/20.

5.5 Awgrymir y dylid trosglwyddo £1.799 miliwn o'r gronfa strategaeth ariannol i gyllido'r bwlch. Bydd y Cyngor felly wedi llwyddo i osgoi gwneud unrhyw ddefnydd o falansau'r Cyngor i fantoli cyllideb 2019/20 (yn unol â'r Strategaeth Ariannol cymeradwyodd y Cyngor ar 5 Mawrth 2020).

## 6. Camau nesaf ac amserlen

6.1 Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, a Chod Ymarfer Cyfrifo CIPFA, rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid ardystio datganiadau ariannol statudol 2019/20 y Cyngor cyn 15 Mehefin. Mae 2019/20 yn ail flwyddyn drosiannol o ran cwtogiad yn yr amserlen, gyda'r dyddiad statudol yn 15 Mehefin yn hytrach na 30 Mehefin, gyda chwtogiad pellach i 31 Mai o 2020/21 ymlaen. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn y broses i gwblhau'r gwaith yn gynt a hynny dan amgylchiadau heriol iawn eleni yn sgil yr argyfwng Covid-19.

6.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant adrannau unigol, a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2019/20. Byddwn yn ystyried y wybodaeth yn sgil hynny er mwyn medru adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.

6.3 Mae'r Adran Gyllid wedi llwyddo i gynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2019/20 sydd wedi ei ardystio gan y Pennaeth Cyllid cyn y dyddiad statudol eleni o 15 Mehefin.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 - sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran
Atodiad 2 - prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol
Atodiad 3 - adnoddau wedi'u cynaeafu o adolygu cronfeydd a darpariaethau

## Cyfrifon Terfynol 2019/20 Alldro Refeniw - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Terfynol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb 2019/20 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2019/20 £ '000 | *Amcan Sefyllfa Diwedd Tachwedd £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,906** | **0** | **0** | **0** | *658* |
| **Plant a Theuluoedd** | **14,695** | **3,359** | **(3,259)** | **100** | *3,161* |
| **Addysg** | **85,853** | **(96)** | **0** | **(96)** | *16* |
| **Economi a Chymuned** | **4,227** | **67** | **0** | **67** | *14* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **24,464** | **547** | **(447)** | **100** | *970* |
| **Amgylchedd** | **3,339** | **(170)** | **70** | **(100)** | *(105)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **102** | **(11)** | **0** | **(11)** | *87* |
| **Tai ac Eiddo** | **3,040** | **83** | **0** | **83** | *30* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **1,632** | **(50)** | **0** | **(50)** | *(77)* |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | **6,095** | **(70)** | **0** | **(70)** | *(75)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **7,651** | **(100)** | **0** | **(100)** | *(96)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | **(1,012)** | **1,012** | **0** | *0* |
| **Cyfansymiau (net)** | **202,004** | **2,547** | **(2,624)** | **(77)** | *4,583* |

| | |
|---|---|
| **Cyllido o:** | |
| Cynaeafu Cronfeydd a Darpariaeth (*Atodiad* 3) | **825** |
| Cronfa Strategaeth Ariannol | **1,799** |
| | **0** |

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb 2019/20 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 13,447 | 12,840 | (607) | 0 | (607) | (145) |
| Gofal Cartref | 6,831 | 5,962 | (869) | 0 | (869) | (725) |
| Eraill | 198 | 1,330 | 1,132 | 0 | 1,132 | 1,205 |
| | 20,476 | 20,132 | (344) | 0 | (344) | 335 |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,350 | 2,228 | (122) | 0 | (122) | (52) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 18,183 | 18,627 | 444 | 0 | 444 | 481 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 3,462 | 3,315 | (147) | 0 | (147) | (84) |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 2,980 | 2,932 | (48) | 0 | (48) | (35) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **47,451** | **47,234** | **(217)** | **0** | **(217)** | **645** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | (261) | (328) | (67) | 0 | (67) | (46) |
| Gofal Dydd | (23) | 316 | 339 | 0 | 339 | 295 |
| Gofal Cymunedol | (4) | 393 | 397 | 0 | 397 | 328 |
| Eraill | (3) | (46) | (43) | 0 | (43) | (26) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **(291)** | **335** | **626** | **0** | **626** | **551** |

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb 2019/20 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,746 | 3,757 | 11 | 0 | 11 | 111 |
| Defnydd o gronfa benodol | | | (420) | 0 | (420) | (649) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **3,746** | **3,757** | **(409)** | **0** | **(409)** | **(538)** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,906** | **51,326** | **0** | **0** | **0** | **658** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - derbyniad grant pwysau'r gaeaf gwerth £450k, cynnydd mewn grantiau eraill o £106k a chynnydd yn y derbyniad incwm preswyl a nyrsio yn dilyn ail-asesu incwm cleientiaid. Bu hefyd leihad pellach yn y galw am becynnau gofal cartref. Methiant i wireddu gwerth £669k o arbedion o fewn y pennawd 'Eraill' a gorwariant o £374k ar Lety Cefnogol, gyda chostau sefydlu cynllun Hafod y Gest yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - y tueddiad o leihad yn y nifer pecynnau gofal cartref yn parhau, ond cynnydd yn nifer y lleoliadau Preswyl a Nyrsio.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - effaith y galw cynyddol ar lety cefnogol a gwasanaethau dydd yn cael ei leihau gan danwariant ar breswyl a nyrsio.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl -** achos costus wedi dod i ben ynghyd â throsiant staff a derbyniad grant ychwanegol.

**Gwasanaethau Darparu** - costau cysylltiedig â staffio uwchlaw lefel y gyllideb yn faterion yn Gofal Dydd a Gofal Cymunedol, gyda cartrefi wedi bod mewn mesurau arbennig, argymhellion gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a phenodi uwchlaw'r gyllideb. Lleihad yn yr incwm am fis Mawrth yn deillio o'r argyfwng Covid-19.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - derbyniad grant ac incwm a chwtogi ar wariant yn lleihau effaith y llithriad mewn gwireddu gwerth £247k o gynlluniau arbedion.

Mae'r adran wedi derbyn grant o £0.8 miliwn gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau cynyddol yn deillio o bwysau'r gaeaf a grantiau pellach eraill o £242k, mae'r grantiau yma wedi cynorthwyo i leihau'r gorwariant a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r adran hefyd yn gwneud defnydd o gyllid un-tro o £420k o gronfa benodol sydd yn galluogi'r adran i leddfu'r gorwariant yn llwyr eleni.

Heb y cyfraniadau ychwanegol mi fysa'r adran yn gorwario £1.5miliwn. Fodd bynnag erbyn cyllideb 2020/21 maent wedi derbyn bidiau ychwanegol o dros £1.8m**.** Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi comisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb, fel bod modd cael gwell dealltwriaeth o fanylder cymhleth y darlun yng ngofal oedolion.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb 2019/20 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 579 | 561 | (18) | 0 | (18) | 33 |
| Gweithredol | 2,206 | 2,359 | 153 | 0 | 153 | 88 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,128 | 3,752 | 1,624 | 0 | 1,624 | 1,521 |
| Maethu Drwy Asiant | 911 | 1,412 | 501 | 0 | 501 | 485 |
| Maethu Mewnol | 1,706 | 2,294 | 588 | 0 | 588 | 545 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,644 | 1,757 | 113 | 0 | 113 | 105 |
| | 6,389 | 9,215 | 2,826 | 0 | 2,826 | 2,656 |
| Ôl-16 | 1,034 | 1,294 | 260 | 0 | 260 | 120 |
| Arbenigol/Derwen | 1,776 | 2,133 | 357 | 0 | 357 | 337 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 268 | 190 | (78) | 0 | (78) | (44) |
| Blynyddoedd Cynnar | 144 | 70 | (74) | 0 | (74) | (73) |
| Ieuenctid | 743 | 607 | (136) | 0 | (136) | (69) |
| Eraill | 1,556 | 1,625 | 69 | 0 | 69 | 113 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20 | | | | (3,259) | (3,259) | 0 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **14,695** | **18,054** | **3,359** | **(3,259)** | **100** | **3,161** |

## Plant a Theuluoedd

**Gweithredol** - y gorwariant yn parhau er fod y maes wedi derbyn adnodd ychwanegol o £100k ar gyfer 2019/20 ymlaen, cynnydd sylweddol yn ystod misoedd olaf y flwyddyn ar gostau cefnogi teuluoedd yn ardaloedd Arfon a Dwyfor a gorwariant ar gostau staff sydd uwchlaw lefel y gyllideb.

**Lleoliadau** - y galw am yr ystod o wasanaethau yn dwysáu ymhellach, rhan helaeth o'r gorwariant yn deillio o 7 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 8 achos a ddechreuodd yn ystod 2018/19. Yn maethu drwy asiant, 12 achos newydd eleni ac effaith blwyddyn lawn 4 achos a gychwynwyd yn 2018/19. Cynnydd pellach hefyd yn y niferoedd lleoliadau maethu mewnol (166 ar 31.3.20, 139 ar 31.3.19). Yn dilyn adolygiad o'r ymrwymiadau all-sirol, daeth yn amlwg y bu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig ac yn gydamserol, gwelwyd hefyd gwtogiad yng nghyfraniadau Iechyd. Ymhellach i hyn, gwerth £370k o arbedion o fewn Lleoliadau sydd eto i'w gwireddu.

Mae arian ychwanegol o £1.985m wedi ei ddyrannu i'r Adran yn 2020/21 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol yn y maes Lleoliadau.

**Ôl-16** - costau cefnogaeth cychwynol uchel eleni yn deillio o 2 achos newydd sydd wedi trosglwyddo o Leoliadau All-sirol.

**Arbenigol/Derwen** – gorwariant o £357k yn bennaf ar gynlluniau cefnogol gyda chynnydd yn y galw am wasanaeth ac am gefnogaeth arbenigol.

**Cyfiawnder Ieuenctid** - Swyddi gwag a throsiant staff yn gyfrifol am y cynnydd yn y tanwariant.

**Blynyddoedd Cynnar** – derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yn gyfrifol am y tanwariant.

**Ieuenctid** – derbyniad grantiau yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth yn ddiweddar.

**Eraill** - derbyniad grant ar ddiwedd y flwyddyn yn lleihau'r gorwariant sydd yn deillio o'r gofyn uwch ar yr ymrwymiad i wasanaeth adfocatiaeth Gogledd Cymru, gorwariant ar ffioedd proffesiynol ac ar adolygiadau statudol.

O ystyried tueddiad gorwariant cynyddol yr adran, mae Tasglu Cyllideb Plant, wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr adran.

**Argymhellir** fod yr Adran Plant a Theuluoedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £3,259k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2020/21.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Addysg** | Cyllideb 2019/20 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 74,272 | 74,272 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (417) | (823) | (406) | 0 | (406) | (249) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 4,920 | 5,078 | 158 | 0 | 158 | 228 |
| Gwasanaeth Atodol | 441 | 797 | 356 | 0 | 356 | 259 |
| Eraill | 96 | (71) | (167) | 0 | (167) | (347) |
| | 5,457 | 5,804 | 347 | 0 | 347 | 140 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,125 | 2,076 | (49) | 0 | (49) | (25) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 4,416 | 4,428 | 12 | 0 | 12 | 150 |
| **Cyfanswm Addysg** | **85,853** | **85,757** | **(96)** | **0** | **(96)** | **16** |

**<u>Addysg</u>**

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion** - cyfuniad o dderbyniad a defnydd o grantiau, trosiant staff a chwtogi ar wariant yn gyfrifol am y tanwariant pellach erbyn diwedd y flwyddyn.

**Cludiant** - yn dilyn y gorwariant ar y maes yma dros y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd £400k o gyllid ychwanegol ar gyfer 2019/20 gyda chyllid pellach wedi ei ddyrannu ar gyfer 2020/21. Serch hyn, mae'r gorwariant yn parhau ond yn is na'r hyn a ragwelwyd, gyda gorwariant o £63k ar Fysus Ysgol, £63k ar Gludiant Tacsis Ysgolion a £33k o ddiffyg incwm ar Gludiant Ôl-16 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - gydag ysgolion wedi cau am y saith diwrnod gwaith olaf ym Mawrth oherwydd y Covid-19, diffyg incwm cynyddol ar brydau ysgol a'r elfen gofal o'r cynllun brecwast o ganlyniad. Hyn yn ychwanegol i'r diffyg incwm oedd yn bodoli yn y maes yma'n barod ynghyd â gorwariant ar faterion staffio a salwch yn Arlwyaeth, Glanhau a Gofalu am ysgolion.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - yn parhau i danwario ond fod galw uwch ar gyllidebau amrywiol gan gynnwys ar integreiddio, na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - y gorwariant sydd yn ymwneud ag amgylchiadau mewn un ganolfan benodol wedi cael ei leddfu yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn o ganlyniad i ddefnydd o grant ynghyd â throsiant staff.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb 2019/20 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 345 | 348 | 3 | 0 | 3 | 0 |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 386 | 396 | 10 | 0 | 10 | 10 |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | (101) | (92) | 9 | 0 | 9 | (36) |
| Cytundebau Hamdden | 1,018 | 1,097 | 79 | 0 | 79 | 68 |
| Rhaglenni Chwaraeon | 97 | 37 | (60) | 0 | (60) | (48) |
| Rhaglenni Datblygu Economiadd | 62 | 36 | (26) | 0 | (26) | (40) |
| Marchnata a Digwyddiadau | 310 | 310 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,385 | 1,378 | (7) | 0 | (7) | (9) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 725 | 784 | 59 | 0 | 59 | 69 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **4,227** | **4,294** | **67** | **0** | **67** | **14** |

**Economi a Chymuned**

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - difrod yn deillio o stormydd y gaeaf wedi arwain at wariant ychwanegol annisgwyl ar y pontynau yn Hafan, Pwllheli ac ar gynnal tiroedd ym Mharc Glynllifon. Trosiant staff ym Mharc Glynllifon a Pharc Padarn yn golygu bod tanwariant o £27k ar y Parciau Gwledig ond bod gorwariant o £36k gan Morwol sydd yn gyfuniad o ddiffyg incwm a gorwariant staffio tymhorol ar y traethau a gwariant uwch yn Hafan, Pwllheli.

**Cytundebau Hamdden** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth Hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor, gwelwyd cynnydd un-tro yng nghostau rhedeg y canolfannau hamdden ac felly yn gorwario £79k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Rhaglenni Chwaraeon a Rhaglenni Datblygu Economaidd** - swyddi gwag a defnydd o grantiau yn gyfrifol am y sefyllfa tanwariant ond costau angenrheidiol ar ddiwedd y flwyddyn yn lleihau'r tanwariant a adroddir ar Ddatblygu Economaidd.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - problemau yn parhau yn Storiel gyda gorwariant o £69k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sydd yn gyfuniad o orwariant ar gostau staff a diffyg yn yr incwm. Tanwariant ar Archifau a'r Celfyddydau yn cynorthwyo rhywfaint ar y sefyllfa ariannol gan ostwng y gorwariant i £59k.

## CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | | Cyllideb 2019/20 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | | 9,767 | 9,713 | (54) | 0 | (54) | (135) |
| Gwasanaethau Peirianneg | | 309 | 297 | (12) | 0 | (12) | 55 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | Gwastraff | 10,803 | 11,654 | 851 | 0 | 851 | 996 |
| | Eraill | 3,585 | 3,347 | (238) | 0 | (238) | 54 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20 | | | | | (447) | (447) | 0 |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **24,464** | **25,011** | **547** | **(447)** | **100** | **970** |

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Gwasanaethau Priffyrdd** - wedi rhagori ar incwm allanol ond gwariant ychwanegol ar gynlluniau yn gyfrifol am leihad yn y tanwariant a adroddir.

**Gwasanaethau Peirianneg** - llai o wariant mewn nifer o feysydd ar ddiwedd y flwyddyn wedi arwain at sefyllfa o danwariant.

**Gwastraff** - lleihad yn y gorwariant yn y maes Gwastraff i £851k. Nid oedd costau ymdrin â gwastraff drwy Barc Adfer, sef cyfleuster rhanbarthol 'Troi Gwastraff yn Ynni' sydd wedi ei leoli yng Nglannau Dyfrdwy, mor uchel â’r hyn a ragwelwyd yn yr adolygiad diwethaf a derbyniwyd grant gwastraff clinigol o £123k gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd bellach wedi dod i rym yn Nwyfor ac yn fwy diweddar yn Arfon ond llithriad pellach yn amserlen gweithredu'r drefn newydd ym Meirionnydd, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch yn gyfrifol am £496k o'r gorwariant.

Gorwariant yn parhau ar gostau gweithredol a thrafnidiaeth, diffyg grant ac incwm ar wastraff a deunyddiau ailgylchu.

Er fod rhai camau ar yr ochr Gwastraff eisoes wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn i sicrhau mesurau i weithredu o fewn y gyllideb, nodir bu oedi gyda'r gweithrediad eleni.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - cyfuniad o gynnydd mewn incwm, gwireddu arbedion ymlaen llaw a chwtogi ar wariant wedi arwain at sefyllfa o danwariant erbyn diwedd y flwyddyn.

**Argymhellir** fod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £447k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i 2020/21 i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2020/21.

| **CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb 2019/20 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 401 | 343 | (58) | 0 | (58) | (53) |
| Gwasanaeth Cynllunio | 286 | 305 | 19 | 0 | 19 | 137 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 590 | 354 | (236) | 0 | (236) | (50) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,985) | (1,869) | 116 | 0 | 116 | (12) |
| Cludiant Integredig | 1,566 | 1,537 | (29) | 0 | (29) | (24) |
| | 171 | 22 | (149) | 0 | (149) | (86) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 740 | 773 | 33 | 0 | 33 | 21 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,741 | 1,726 | (15) | 0 | (15) | (124) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20 | | | | 70 | 70 | 0 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **3,339** | **3,169** | **(170)** | **70** | **(100)** | **(105)** |

## Amgylchedd

**Rheolaeth** - tanwariant cyffredinol ac arbedion ymlaen llaw yr adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

**Gwasanaeth Cynllunio** - symudiad yn y sefyllfa ers yr adolygiad diwethaf o ganlyniad i leihad yn y diffyg incwm yn dilyn derbyn ceisiadau mawr ychwanegol ym misoedd olaf y flwyddyn yn y maes Rheolaeth Datblygu. Tanwariant ar wasanaethau, cyflenwadau a chludiant hefyd yn cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y diffyg incwm.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth** - darlun cymysg o ran yr incwm perthnasol, gyda'r maes Traffig a Threfniadau Statudol yn gorgyflawni incwm o gau ffyrdd, sydd yn rhan o gynlluniau arbedion yr adran dros y blynyddoedd nesaf. Ond, gostyngiad pellach yn yr incwm parcio gydag effeithiau'r coronafirws wedi cael ardrawiad ar yr incwm parcio yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn ariannol, serch ei fod yn cael ei leddfu gan swyddi gweigion, y gorwariant net yn £116k.

**Cludiant Integredig** - tanwariant un-tro ar gostau staff a rhagori ar incwm yn lleihau effaith y costau ychwanegol ar gytundebau bysus. Yr adran yn gwneud defnydd o gronfa a neilltuwyd i'r pwrpas tuag at y costau cynyddol. Mae'r adran yn y broses o gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus ac eisoes wedi comisiynu ymchwil gan y Brifysgol i adolygu'r ddarpariaeth.

**Gwarchod y Cyhoedd** - gwariant un-tro ar feddalwedd newydd yw'r prif reswm am ostyngiad yn y tanwariant erbyn diwedd y flwyddyn, ymddengys hefyd fod effeithiau'r coronafirws wedi effeithio'r incwm yn y meysydd Trwyddedu, Tacsis a Marchnadoedd gan nad yw'r incwm mor addawol a'r hyn a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn.

Fel rhan o'r adolygiad diwedd Awst, derbyniodd yr Adran Amgylchedd gymeradwyaeth y Cabinet i neilltuo £220k o'u tanwariant eleni tuag at gostau yn dilyn adolygiad barnwrol yn ymwneud â ffordd fynedfa Llanbedr. O ystyried y sefyllfa bresennol gyda'r argyfwng Coronafirws sydd â oblygiadau ariannol sylweddol ar y Cyngor, mae'r Adran wedi cytuno ei bod yn briodol iddynt ddefnyddio cyfuniad o danwariant adrannol a darpariaeth cyfalaf nad oes ei angen mwyach i'w gyllido.

Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol **argymhellir** cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£70k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2019/20.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb 2019/20 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (475) | (498) | (23) | 0 | (23) | 25 |
| Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS) | 44 | 44 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd | 485 | 482 | (3) | 0 | (3) | 1 |
| Rheolaeth Adeiladu | 48 | 63 | 15 | 0 | 15 | 61 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **102** | **91** | **(11)** | **0** | **(11)** | **87** |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - symudiad ffafriol o (£48k) ers yr adolygiad diwethaf o ganlyniad i danwariant ar gostau staff yn lleddfu'r diffyg a welwyd yn lefel yr incwm gan sefydliadau allanol, megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

**Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)** - diffyg incwm yn ystod y cyfnod o sefydlu'r uned newydd wedi cael ei leddfu gan danwariant ar gostau staff.

**Rheolaeth Adeiladu** - diffyg incwm yn cael ei leihau gan wariant is ar wasanaethau a chyflenwadau.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Cyllideb 2019/20 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | (22) | 52 | 74 | 0 | 74 | 103 |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 1,062 | 1,313 | 251 | 0 | 251 | 160 |
| Tai Sector Breifat | 344 | 257 | (87) | 0 | (87) | (69) |
| Eraill | 212 | 170 | (42) | 0 | (42) | (58) |
| | 1,618 | 1,740 | 122 | 0 | 122 | 33 |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 1,420 | 1,331 | (89) | 0 | (89) | (107) |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 24 | 0 | (24) | 0 | (24) | 1 |
| | 1,444 | 1,331 | (113) | 0 | (113) | (106) |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **3,040** | **3,123** | **83** | **0** | **83** | **30** |

## Tai ac Eiddo

**Rheolaeth** - Cynllun Arbedion sydd eto i'w wireddu sydd bennaf gyfrifol am y gorwariant. Mae'r Adran yn edrych ar gynllun amgen i ddisodli'r cynllun presennol.

**Gwasanaethau Tai** - pwysau ar y gyllideb Llety Dros Dro, Digartrefedd o ganlyniad i gyfuniad o gynnydd mewn pris ac arhosiad hirach, mae bidiau digonol wedi eu cymeradwyo i gyfarch hyn yn 2020/21. Tai Sector Breifat yn rhagori ar incwm a Thai Eraill yn tanwario ar gostau staff, felly yn cynorthwyo i leddfu'r gorwariant a adroddir ar gyfer y Gwasanaeth Tai.

**Gwasanaethau Eiddo** - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir ynghyd â thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adrannau Canolog** | Cyllideb 2019/20 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1,632 | 1,582 | (50) | 0 | (50) | (77) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 6,095 | 6,025 | (70) | 0 | (70) | (75) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,651 | 7,551 | (100) | 0 | (100) | (96) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **15,378** | **15,158** | **(220)** | **0** | **(220)** | **(248)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - gostyngaid yn y tanwariant a adroddir gan fod cyfran o danwariant swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cael ei ddargyfeirio i gyllido gwell darpariaeth lles yn swyddfeydd y Cyngor. Derbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol yn cyfrannu at y sefyllfa ffafriol ond yn cael ei leihau o ganlyniad i gostau staffio uwch.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro oherwydd trosiant staff, secondiadau, a derbyniad incwm a grantiau ychwanegol mewn nifer o feysydd. Incwm ychwanegol o wahanol ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru am y maes gweinyddu rhyddhad trethi annomestig a grant ychwanegol cyfnod trosiannol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn y maes Budd-daliadau. Ymhellach, mae'r adran wedi llwyddo i gyflawni arbedion ymlaen llaw eleni ac wedi eu dargyfeirio i bwrpas Corfforaethol.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - y tanwariant yn bennaf ar dderbyniad incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb mewn nifer o feysydd ar draws yr adran, gan gynnwys Cyfieithu, Cofrestru a'r Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol. Swyddi gwag a secondiadau hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa ffafriol, mewn paratoad ar gyfer arbedion y blynyddoedd nesaf, gan nad oes galwad ar yr arbedion eleni mae'r adran eisoes wedi trosglwyddo rhan o'i arbedion ymlaen llaw i bwrpas Corfforaethol.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL**

| Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau) | Cyllideb 2019/20 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (495) | | (495) | 0 |
| Premiwm Treth Cyngor | * | * | 0 | | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (183) | | (183) | 0 |
| Eraill | * | * | (334) | | (334) | 0 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20 | | | | 1,012 | 1,012 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | ***** | ***** | **(1,012)** | **1,012** | **0** | **0** |



## Corfforaethol

**Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor** - sefyllfa ffafriol o dreth ychwanegol ar Dreth Cyngor, serch fod Swyddfa'r Prisiwr eisoes wedi caniatau trosglwyddo 397 eiddo o'r rhestr Treth Cyngor i Drethi Annomestig yn ystod 2019/20 (453 yn 2018/19, 282 yn 2017/18, a 199 yn 2016/17). Yn ystod y flwyddyn £2.9m o Bremiwm Treth Cyngor wedi ei gasglu a'i neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - tanwariant o (£183k) gan fod niferoedd ceisiadau y cynllun Gostyngiad Treth Cyngor (Budd-daliadau) yn gyffredinol ar ei lefel isaf am y bedwaredd blynedd yn olynol ar hyd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn 2019/20, ond gwelwyd cynnydd yn gynnar yn 2020/21 yn deillio o'r argyfwng Covid-19.

**Eraill** - y pwysau ar draws nifer sylweddol o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd ac felly'n tanwario.

**Argymhellir** y dylid cynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario yn 2019/20 gan ei gyllido o'r ffynonellau canlynol:
- tanwariant net o (£1,012k) ar gyllidebau Corfforaethol
- tanwariant o (£70k) gan yr Adran Amgylchedd, sydd uwchlaw y trothwy tanwariant o (£100k) sydd yn cael ei ganiatau i'r Adrannau.
- defnydd o'r (£825,044) o'r ymarferiad cynaeafu cronfeydd a darpariaethau a fanylir yn **Atodiad 3**
- y gweddill sydd ar ôl i'w gyllido sef (£1,799k) yn cael ei ryddhau o Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.

Atodiad 3

## Adnoddau wedi'u Cynaeafu o Adolygu Cronfeydd a Darpariaethau

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd a darpariaethau, argymhellir rhyddhau'r symiau canlynol o'r cronfeydd a darpariaethau isod:

| **Cronfa** | **Swm i'w ryddhau £** |
|---|---:|
| Tanwariant Cefnogaeth Gorfforaethol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 60,842 |
| Tanwariant yr Adran Cyllid (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 58,984 |
| Prosiectau Hanesyddol Amrywiol Gorffenedig | 308,464 |
| Amrywiol Gronfeydd ar Gyfer Systemau Gorffenedig | 151,184 |
| Gofynion Maes Diwygio Lles (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 121,570 |
| Rheoli Risg (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 100,000 |
| **Cyfanswm** | **801,044** |

| **Darpariaeth** | **Swm i'w ryddhau £** |
|---|---:|
| Hawliadau Trydydd Parti (wedi cwblhau) | 24,000 |
| **Cyfanswm** | **24,000** |

**gan eu defnyddio i:**

| **Cronfeydd a Darpariaeth a gynaeafwyd** | **Swm £** |
|---|---:|
| Cyllido gorwariant Adrannau sydd yn gorwario yn 2019/20 | 825,044 |
| **Cyfanswm** | **825,044** |

Eitem 7

**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 MEHEFIN 2020

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2019/20 –
Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2020)

**Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2020) o'r rhaglen gyfalaf.
- Nodi'r gwariant o £29,069,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20, fydd yn cael ei ddefnyddio yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2019/20.
- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

  - £245,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
  - £2,363,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
  - £17,000 lleihad mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
  - £244,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
  - Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
  - £74,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2019/20. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3**:** Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £92.044m am y 3 blynedd 2019/20 – 2021/22.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £2.909m ers yr adolygiad diwethaf.

Rhan 5: Manylder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2019/20 i 2020/21

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Llwyddodd y Cyngor i wario oddeutu £29.1m yn 2019/20 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £16.2m (56%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol a £3.9m o grant cyffredinol cyfalaf.
- Yn ychwanegol i'r £17.1m adroddwyd arno yn adolygiadau blaenorol 2019/20 mae £5.7m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2019/20 i 2020/21, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2019/20 i 2021/22

Gweler isod y rhaglen gyfalaf derfynol am 2019/20 ar ddiwedd Mawrth 2020, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynyddoedd dilynol.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 | 2021/22<br>£'000 | CYFANSWM<br>£'000 | £'000 |
| Addysg | 8,757 | 10,110 | 1,895 | 20,762 | 1,174 |
| Amgylchedd | 1,926 | 2,555 | 178 | 4,659 | 202 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 0 | 119 | 0 | 119 | 0 |
| Cyllid | 926 | 458 | 1,237 | 2,621 | 190 |
| Economi a Chymuned | 1,037 | 2,155 | 330 | 3,522 | 101 |
| Tai ac Eiddo | 5,328 | 10,931 | 4,528 | 20,787 | 240 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,926 | 2,993 | 2,400 | 7,319 | 41 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 303 | 1,652 | 250 | 2,205 | (502) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 8,229 | 8,212 | 2,200 | 18,641 | 527 |
| Ymgynghoriaeth | 637 | 3,640 | 3,410 | 7,687 | 52 |
| Corfforaethol | 0 | 3,037 | 685 | 3,722 | 884 |
| **CYFANSWM** | **29,069** | **45,862** | **17,113** | **92,044** | **2,909** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £2.909m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu terfynol ar gyfer 2019/20 ar ddiwedd Mawrth 2020, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynyddoedd dilynol:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,108 | 7,535 | 6,610 | 18,253 | 0 |
| Benthyca Arall | 1,871 | 4,226 | 2,567 | 8,664 | 245 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 20,083 | 9,976 | 0 | 30,059 | 2,363 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 423 | 855 | 0 | 1,278 | (17) |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,486 | 2 | 0 | 1,488 | 244 |
| Cronfa Cyfalaf | 8 | 2,277 | 3,801 | 6,086 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 1,090 | 20,991 | 4,135 | 26,216 | 74 |
| **CYFANSWM** | **29,069** | **45,862** | **17,113** | **92,044** | **2,909** |

## 5. Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf llwyddodd y Cyngor i ddenu a defnyddio'r grantiau canlynol ychwanegol i'r rhaglen gyfalaf (swm net o £2,363k - gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £1,975k Grant Cynnal a Chadw Ysgolion
- £200k Grant HWB Seilwaith Ysgolion – elfen gyfalaf yr arian uniongyrchol a roddwyd gan Llywodraeth Cymru ar gyfer offer Technoleg Gwybodaeth
- £193k Grantiau at ddibenion Ailgylchu a Gwastraff
- £162k Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol
- £100k Grant traenio tir a llifogydd
- £97k Grant Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru
- £50k Grant Cronfa Gofal Integredig newydd tuag at addasiadau i'r anabl
- £36k Grant gan Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau gwledig
- £32k Grant Cronfa Gofal Canolraddol – addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill

## 6. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2020) o'r rhaglen gyfalaf,**
- **nodi'r gwariant o £29,069,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).**

## 7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2019/20 – 2021/22.

## 8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn  berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad A – Manylion y Prif Newidiadau
Atodiad B – Manylion Ail-broffilio

----------------------------

**Manylion y Prif Newididau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

| | 2019/20<br>£'000 | 2020/21-2021/22<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Ehangu cynlluniau Grant Ysgolion Ganrif 21 a chywiro yr elfen o Grantiau Gofal Plant *(Adran Addysg ac Adran Plant a Theuluoedd).* | (479) | |
| • Grant Cynnal a Chadw Ysgolion *(Adran Addysg ac Adran Tai ac Eiddo).* | 1,975 | |
| • Grant Cronfa Gofal Integredig newydd tuag at addasiadau i'r anabl *(Adran Tai ac Eiddo).* | 50 | |
| • Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 32 | |
| • Grant HWB Seilwaith Ysgolion - elfen gyfalaf yr arian uniongyrchol a roddwyd gan Llywodraeth Cymru ar gyfer offer TG i ysgolion *(Adran Cyllid).* | 200 | |
| • Grant traenio tir a llifogydd gan Llywodraeth Cymru *(Adran Ymgynghoriaeth).* | 100 | |
| • Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 162 | |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd).* | 36 | |
| • Grantiau at ddibenion Ailgylchu a Gwastraff gan Llywodraeth Cymru *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 193 | |
| • Grant Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 97 | |

| | |
|---|---|
| **Benthyciadau Arall** | |
| • Cerbydau Ailgylchu a Bwrdeistrefol (*Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 245 |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | |
| • Newidiadau yn y Cynlluniau Bwrdeistrefol oherwydd derbyniad grantiau (*Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | (14) |
| **Refeniw Adrannol** | |
| • Cerbydau i amrywiol ysgolion gan gynnwys Bro Idris a Godre'r Berwyn *(Adran Addysg).* | 72 |
| • Cydariannu Cynllun Mynediad Bangor *(Adran Economi a Chymuned).* | 20 |
| • Cyfraniadau tuag at amrwyiol gynlluniau Priffyrdd *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 33 |
| • Ariannu Cyfatebol amrywiol gynlluniau Tai yn cynnwys Safle Sipsiwn a Galluogi *(Adran Tai ac Eiddo).* | 120 |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| • Cywiro cydariannu Cynllun Mynediad Bangor *(Adran Economi a Chymuned).* | (20) |
| • Addasiad cydariannu cynlluniau atal llifogydd *(Adran Ymgynghoriaeth).* | (56) |
| • Addasu Ariannu cerbydau a thanciau tanwydd o gronfeydd adnewyddu *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Adran Tai ac Eiddo).* | 63 |
| • Cynlluniau yn y maes Rheoli Gwastraff gan gynnwys sgipiau a cartgylchu *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 75 |

---------------------------

**Manylion Ail-broffilio**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|
| Adnoddau Cynllun Asedau heb ddyrannu tan 2020/*21 (Corfforaethol)* | (1,123) | 1,123 |
| Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (5,244) | 5,244 |
| Cynlluniau Iechyd a Diogelwch *(Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)* | (106) | 106 |
| Cynlluniau sefydliadau Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,137) | 1,137 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (250) | 250 |
| Cynllun i Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (157) | 157 |
| Cynlluniau Atal Llifogydd *(Adran Ymgynghoriaeth)* | (281) | 281 |
| Adnewyddu Cerbydau *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Adran Amgylchedd)* | (2,695) | 2,695 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth *(Adran Amgylchedd)* | (1,898) | 1,898 |
| Ail-wynebu Meysydd Parcio *(Adran Amgylchedd)* | (230) | 230 |
| Cynlluniau Gwledig *(Adran Amgylchedd)* | (134) | 134 |
| Cynlluniau Addasiadau, Cynnal a Chadw ayyb Eiddo'r Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,833) | 2,833 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,192) | 1,192 |
| Cynlluniau Strategaeth Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,056) | 2,056 |
| Cynllun Grant TRIP *(Adran Tai ac Eiddo)* | 352 | (352) |
| Cynlluniau Eraill Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (141) | 141 |
| Cynllun Adfywio ac Adnewyddu Caernarfon a Bangor *(Adran Economi a Chymuned)* | (718) | 718 |
| Cynlluniau Morwrol, Hamdden a Llyfrgelloedd *(Adran Economi a Chymuned)* | (558) | 558 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynlluniau Grant Gofal Plant *(Adran Plant a Theuluoedd)* | (509) | 509 |
| Cynlluniau Ffyrdd *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | (518) | 518 |
| Cynlluniau Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | (319) | 319 |
| Grant Cynnal a Chadw Ysgolion *(disodli ariannu yn 19/20, sy'n llithro adnodd i 20/21)* | (884) | 884 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

----------------------------

Eitem 8

**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 MEHEFIN 2020

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** COVID19: Ystyriaethau Ffioedd Penodol

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid
Dafydd L. Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## 1 Y penderfyniad a geisir


Gofynnir i'r Cabinet roi arweiniad os ydynt am i rai ffioedd penodol gael eu lleihau neu oedi yn deillio o'r argyfwng COVID19, er mwyn gallu gweithredu yn unol â hynny.

## 2 Pwrpas yr Adroddiad

I hysbysu'r Cabinet o ystyriaethau yn ymwneud â ffioedd penodol yn deillio o'r argyfwng COVID19, lle y dylid rhoi ystyriaeth i leihau neu ad-dalu rhan o ffioedd gyda'r pwrpas o sicrhau tegwch ariannol, osgoi caledi ariannol, gwarchod buddion y Cyngor ac amddiffyn incwm i'r dyfodol.

## 3 Cefndir

Yn y Cyngor llawn ar y 5 Mawrth 2020 cymeradwywyd cyllideb net o £262 miliwn ar gyfer 2020/21, gyda'r gyllideb gros am y flwyddyn yn £431 miliwn. Dengys y diagram isod fod 14% o incwm y Cyngor yn dod o werthiannau, ffioedd, cyfraniadau ayyb.



Mae'r Cabinet eisoes wedi derbyn adroddiad ar effaith COVID19 ar Gyllideb 2020/21, gafodd ei gyflwyno i Gabinet 19/05/2020 oedd yn nodi fod yr amrediad colledion incwm a ragwelir yn yr ystod o rhwng £5 miliwn - £16 miliwn, yn ddibynnol ar hyd yr argyfwng. Gyda'r colledion incwm mwyaf am y cyfnod hyd at ddiwedd Mehefin 2020 i'w weld ar gwmni Byw'n Iach o £1.1 miliwn, Prydau Ysgol £1 miliwn, Parcio £600k, Cytundebau Priffyrdd £600k ac Ymgynghoriaeth Gwynedd £500k.

Mater cysylltiedig ag incwm y dylid cael penderfyniad y Cabinet arno yn sgil yr argyfwng yw ystyriaethau yn ymwneud â ffioedd penodol. Mae'r Cyngor yn derbyn ystod eang o ffioedd a thaliadau ar draws nifer o'i wasanaethau, gyda natur yr incwm yn amrywio o fod yn talu bob tro mae'r gwasanaeth yn cael ei dderbyn neu ddefnyddio i ffioedd sydd am gyfnod penodol e.e. blwyddyn, tocynnau tymor ayyb.

Nid oes sicrwydd ar hyn o bryd am faint fydd yr argyfwng yn parhau a beth fydd yr effaith yn y tymor canolig, ond mae'n bosib na fydd lefelau incwm yn debygol o adfer eu hunain am rai blynyddoedd. Ond, yn yr adroddiad yma rydym yn delio gyda sefyllfa ffioedd 2020/21 yn unig.

## 4 Ffioedd Penodol

Yn dilyn i'r Adran Gyllid ymgysylltu â holl adrannau'r Cyngor am eu ffioedd, rhestrir y ffioedd perthnasol sydd angen ystyriaeth gan y Cabinet yn yr adroddiad yma, gyda'r drefn arferol yn cael ei ystyried i fod yn briodol ar gyfer ffioedd yn yr holl feysydd eraill. Mae'r ffioedd wedi eu rhestr fesul adran, gyda trefn wahanol yn cael ei argymell ar gyfer ffioedd pedair adran, mae modd eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Ffioedd heb anfonebu eto
- Ffioedd yn parhau ar lefelau 2019/20 ac heb eu cynyddu â chwyddiant
- Ffioedd wedi eu talu ymlaen llaw
- Ffioedd Morwrol ble mae mynediad wedi ei gyfyngu
- Rhenti

Yn gyffredinol, y ffioedd sydd dros gyfnod penodol sydd angen penderfyniad Cabinet o ran sut i weithredu.

## 5 Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Gyda'r argyfwng wedi cychwyn ym Mawrth felly cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd, golyga fod rhai ffioedd heb eto eu codi ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd 2020/21 sydd yn cynnwys ffioedd am wastraff masnachol.

**5.1 Gwastraff Masnachol**
Mae nifer o fusnesau wedi gorfod cau yn ystod y cyfnod ond fod y cylchdeithiau casglu gwastraff masnachol wedi parhau ac felly'r gwasanaeth dal ar gael. Mae nifer o'r busnesau a chyrff sydd wedi cau wedi bod yn gymwys i dderbyn grantiau busnes ac eithrio rhag talu trethi.

***Argymhelliad:*** *Dylid gofyn am daliad cymesur â'r gwasanaeth sydd yn cael ei dderbyn gan ofyn i'r Adran anfonebu pan mae casgliadau yn cychwyn, felly modd anfonebu nifer yn barod.*

**5.2 Amlosgfa a Mynwentydd**
Yn wyneb yr argyfwng, nid yw'r cynnydd chwyddiant arferol wedi ei weithredu i gynyddu lefelau ffioedd o rhai blwyddyn ariannol 2019/20 i'r flwyddyn ariannol newydd 2020/21.

***Argymhelliad:*** *Yn yr amgylchiadau presennol ystyrir ei bod hi'n briodol i beidio cynyddu'r prisiau yma yng nghanol yr argyfwng, felly'r ffioedd i barhau am y tro ar lefelau 2019/20.*

## 6 Addysg

Mae rhai o'n ffioedd ar gyfer gwasanaethau sydd yn digwydd dros gyfnod o amser neu sydd yn digwydd fwy na unwaith, felly wedi cael eu talu ymlaen llaw cyn derbyn y gwasanaeth, mae hyn yn wir am ffioedd yn yr Adran Addysg. Gan fod ysgolion wedi cael eu cau ar frys ar yr 20fed o Fawrth, golyga hyn fod rhieni wedi talu ymlaen llaw am brydau ysgol, elfen gofal cyn ysgol a chludiant ôl-16 ond heb dderbyn y gwasanaeth.

**6.1 Prydau Ysgolion Cynradd**
Mae'r system ar-lein talu am ginio ysgol bresennol yn galluogi rhieni dalu ymlaen llaw.

***Argymhelliad:*** *Yn briodol yn yr amgylchiadau fod yr arian yn symud efo'r plentyn yn arbennig felly os yw'r plant yn symud o'r ysgol gynradd i uwchradd, fel arall, ad-daliad yn cael ei gynnig.*

**6.2 Clwb Gofal cyn Ysgol**
Fel yn 6.1, mae'r system ar-lein bresennol yn galluogi rhieni dalu ymlaen llaw.

***Argymhelliad:*** *Yn briodol yn yr amgylchiadau os yw'r plant yn symud ysgol neu yn symud o'r ysgol gynradd i uwchradd fod ad-daliad yn cael ei gynnig.*

**6.3 Cludiant Ôl-16 - Tocyn Teithio 16+**
Taliadau ymlaen llaw am dymor yr haf.

***Argymhelliad:*** *Ad-daliad i'w wneud o ffioedd am dymor yr haf, a threfniadau 29/06/2020 – 27/07/2020 i'w ystyried eto.*

**7 Tai ac Eiddo**

**7.1 Eiddo - Rhenti a llogi swyddfeydd / ystafelloedd**
**7.2 Unedau Diwydiannol - Rhenti**
**7.3 Intec a Mentec – Rhenti**

Rhenti mewn nifer o feysydd gan gynnwys llogi swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod, unedau diwydiannol, Intec a Mentec. Nid yw'r Adran wedi anfonebu am 2020/21 eto. Grantiau busnes / rhyddhad rhag treth busnes wedi eu derbyn gan fusnesau mewn unedau diwydiannol.

***Argymhelliad:*** *Gofynnir i'r Adran fwrw ymlaen i anfonebu'n llawn am y rhenti ond fod modd i fusnesau unigol os yn wynebu caledi, gysylltu â'r Cyngor i drafod eu sefyllfa penodol ac mi fyddwn yn barod i wrando ac ymateb yn briodol.*

**8 Economi a Chymuned**

**8.1 Rhenti - hurio gofod mewn Llyfrgelloedd, defnydd o Barc Padarn, Unedau Glynllifon**

Nid yw'r Adran wedi anfonebu am 2020/21 eto. Grantiau busnes / rhyddhad rhag treth busnes wedi eu derbyn gan fusnesau mewn unedau.

***Argymhelliad:*** *Gofynnir i'r Adran fwrw ymlaen i anfonebu'n llawn am y rhenti ond fod modd i fusnesau unigol os yn wynebu caledi, gysylltu â'r Cyngor i drafod eu sefyllfa penodol ac mi fyddwn yn barod i wrando ac ymateb yn briodol.*

**8.2 Morwrol – Ffioedd Angori Hafan Pwllheli**
**8.3 Morwrol – Ffioedd Angori Harbyrau a Doc Fictoria**

O ran ffioedd morwrol, tra bod mynediad at angorfeydd a phontynau wedi ei wahardd a dim modd defnyddio'r cyfleusterau arferol yn sgil cyfyngiadau, gyda nifer o berchnogion cychod yn cadw eu cychod ar y tir eleni. Dylid ystyried ffioedd gostyngedig yn ystod cyfnod y cyfyngiadau i geisio cadw ein cwsmeriaid. *Nid yw'r adran wedi anfonebu eto.*

***Argymhelliad:*** *lle mae mynediad at gychod a chyfleusterau harbwr wedi ei gyfyngu dylid gostwng y ffioedd i'r 'ffi gaeafu' sydd gyfystyr â 70% o'r ffi lawn er mwyn cadw cwsmeriaid.*

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r rhesymeg am yr argymhellion yn adlewyrchu effaith uniongyrchol yr argyfwng ar fynediad i wasanaethau a ddarperir i unigolion neu fusnesau. Mae rhai o'r ffioedd hefyd a chyd destun masnachol a chytundebol perthnasol sydd angen ei ystyried. Rwy'n fodlon fod yr hyn a gynigir yn rhesymegol a theg.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**ADRODDIAD I'R CABINET**
(16/06/2020)

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Catrin Wager

**Pwnc:** Sefydlu yr hawl i'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (CCS) godi ffi am ddarparu gwasanaeth ymgynghorol cyn-gais.

**Swyddog cyswllt:** Emlyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol, YGC

---

**1. Y penderfyniad a geisir**

1.1 Cymeradwyaeth i'r egwyddor o roi hawl i'r Corff Cymeradwyo SDC godi ffi am y gwasanaeth cyn-gais maent yn ei ddarparu.

1.2 Cytundeb o'r ffioedd hynny bydd y Corff Cymeradwyo SDC yn eu codi.

---

**2. Cyflwyniad**

2.1 **Cefndir**

2.1.1 Mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (DRhLlD) 2010 yn weithredol yng Nghymru ers y 7fed Ionawr 2019. Mae'n gorchymyn unrhyw ddatblygiadau newydd sydd gydag oblygiadau draenio ac ardal adeiladu 100$m^2$ neu fwy, gydymffurfio â Safonau Cenedlaethol ar gyfer draenio cynaliadwy (SDCau). Mae Atodlen 3 DRhLlD 2010 hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol fel Corff Cymeradwyo SDCau i gymeradwyo, mabwysiadu a chynnal systemau sy'n cyd-fynd ag adran 17 yr Atodlen.

2.1.2 Mae cyfrifoldebau statudol y Corff Cymeradwyo SDCau ar gyfer Gwynedd yn eistedd o fewn yr Adran Ymgynghoriaeth.

2.1.3 Caiff ffioedd cais SDC llawn eu llywodraethu yn y Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018. Mae ffi bob cais yn £350 ac yna swm ychwanegol, yn dibynnu ar faint y safle o hyd at uchafswm o £7,500:-

£70 am bob 0.1 hectar neu ffracsiwn o 0.1 hectar, am y 0.5 hectar cyntaf;
£50 am bob 0.1 hectar neu ffracsiwn o 0.1 hectar, o 0.5 hectar hyd at a chan gynnwys 1.0 hectar;

£20 am bob 0.1 hectar neu ffracsiwn o 0.1 hectar, o 1.0 hectar a hyd at a chan gynnwys 5.0 hectar;
£10 am bob 0.1 hectar ychwanegol neu ffracsiwn o 0.1 hectar sy'n fwy na 5.0 hectar.

2.1.4 Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod ffi arolygaeth fel amod o ganiatâd er mwyn sicrhau fod y gwaith adeiladu yn cael ei wneud yn unol â chymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo SDC. Mae'r ffi yma wedi ei osod yn £168 ar gyfer pob arolygaeth gaiff ei wneud.

2.1.5 Tra bod y Rheoliadau yn gosod lefel ffioedd y cais gais (uchod), mae'r Cyfarwyddyd Statudol a Safonau Statudol yn annog darparu gwasanaeth cyn gais, fel bod materion SDCau yn cael eu trafod yn gynnar wrth ddatblygu unrhyw gynllun. Hyd yn hyn, mae'r gwasanaeth cyn cais wedi ei ddarparu am ddim yng Ngwynedd. Mae datblygwyr wedi nodi ei fod yn wasanaeth buddiol, gan fod trafodaeth o flaen llaw yn gallu arwain at adolygu cynlluniau yn amserol ac osgoi oedi a allai fod yn gostus ymhellach ymlaen yn y broses datblygu.

2.1.6 Gall rhai o'r trafodaethau cyn gais gymryd carnau sylweddol o amser swyddogion, ag yn aml iawn maent yn dechnegol ei natur ac felly angen sylw manwl. Erbyn hyn, credir ei fod amserol i edrych ar godi ffi am rhan o'r gwasanaeth hwn, yn debyg i'r ffi cyngor cyn-cais cynllunio, i sicrhau cynaladwyedd y gwasanaeth ac i gyfarch costau amser swyddogion.

2.1.7 Ein cynnig yw codi ffi am elfennau o'r gwasanaeth cyn gais, fel y nodir yn Atodlen 1 o'r ddogfen hon, bydd hyn yn ffurfio'r broses o dderbyn cymorth.

2.1.8 Rydym yn awyddus i annog perthynas dda ag agored gyda'r ymgeiswyr, ble all ymgeisydd gysylltu'r gyda'r Corff am sgwrs neu gyfarfod anffurfiol i gael cymorth syml ar eu cais. Ein cynnig yw parhau i gynnig y gwasanaeth yma am ddim, fel bod hyd at awr o amser swyddog ar gael am ddim i bob ymgeisydd. Mae'r math yma o drafodaeth wedi cael ei chroesawu yn arbennig gan ymgeiswyr llai megis hunan adeiladwyr, datblygiadau amaethyddol ayyb, lle byddai sgwrs gyda swyddog yn ddigonol ar gyfer natur ei datblygiad.

2.1.9 Hyd yn hyn mae'r gwasanaeth ymgynghorol cyn-gais wedi arwain at adnabod yr angen i nifer o geisiadau gael eu hail-ddylunio er mwyn cydymffurfio yn llawn gyda'r amcanion a'r safonau angenrheidiol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Sgil effaith cadarnhaol hyn yw lleihau'r amser ychwanegol, ar ben y cais cynllunio, a gymerir i benderfynu cais llawn. Yn y pen draw felly mae'n lleihau'r amser i'r cwsmer rhwng cyflwyno cais, derbyn penderfyniad a chael cychwyn ar y gwaith adeiladu a hefyd yn arbed arian, ac yn lleihau y risg o'r cais i gael ei wrthod.

2.2 **Diweddariad o waith y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (CCS)**

2.2.1 Mae'r CCS ar hyn o bryd yn parhau i weithredu gwasanaeth di-dâl ble mae datblygwyr neu ymgynghorwyr yn gallu cysylltu am gyngor cyn rhoi cais llawn i mewn. Mae'r cyfarfodydd sydd wedi eu cynnal wedi bod yn bositif ac wedi eu gwerthfawrogi gan ddatblygwyr gan fod y mwyafrif wedi amlygu man broblemau ac felly wedi rhoi cyfle i ddiwygio'r cynlluniau cyn cyflwyno cais ffurfiol.

2.2.2 Mae CCS Gwynedd yn parhau i eistedd ar y grŵp gweithredu SDC Cenedlaethol sy'n trafod materion SDC Cymru ac yn bwydo yn ôl i'r Llywodraeth.

2.2.3 Mae'r CCS yn cydweithio yn rhanbarthol ar draws y gogledd er mwyn ceisio creu cysondeb yn y gofynion newydd yn bennaf drwy ddechrau llunio polisïau a gweithdrefnau a all gael eu defnyddio i rannu adnoddau a chysoni'r ffordd mae'r gofynion yn cael eu gweithredu drwy'r gogledd.

2.2.4 Yn ogystal ag ymgymryd â dyletswyddau Gwynedd o safbwynt SDCau, mae'r CCS hefyd yn delio yn fasnachol â cheisiadau SDCau Ynys Môn a Wrecsam. CCS Gwynedd sy'n gwirio holl geisiadau SDCau y ddwy sir.

2.2.5 Er mwyn codi ymwybyddiaeth o oblygiadau SDCau mewn datblygiadau newydd, mae'r CCS wedi bod yn gweithio gydag adran Cynllunio'r Cyngor, Parc Cenedlaethol Eryri, penseiri ac asiantau. Mae'r CCS hefyd wedi creu taflenni gwybodaeth i'w rhannu â datblygwyr yn ogystal â chreu cyfres o daflenni gwybodaeth syml, addas i'w defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd. Bydd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac YGC fel yn cael ei ddefnyddio fel platfform ar gyfer rhain, a byddent yn cael ei chyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf.

2.2.6 Hyd yma, mae'r CCS wedi derbyn 25 cais llawn ac 14 cais cyn-cyflwyno ffurfiol, yn ogystal â thrafodaethau anffurfiol dyddiol. Mae disgwyliad y bydd y niferoedd yma yn parhau i gynyddu dros amser.

2.2.7 Yn dilyn ymchwiliad i mewn i'r nifer o geisiadau cynllunio'r Cyngor a gyflwynwyd rhwng Ionawr 2019 a Gorffennaf 2019 daeth i'r amlwg fod 41 o'r ceisiadau hyn yn rai oedd hefyd yn disgyn o fewn gofynion CCS ac felly angen cais SDC. Mae'r ymgeiswyr yma wedi eu llythyru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gofynion ac er mwyn cynnig cymorth iddynt yn y broses o gyflwyno cais SDC. Cafodd yr ymchwiliad yma ei ail-redeg rhwng Mehefin a Rhagfyr 2019 ac roedd 41 cais cynllunio arall angen cais SDC. Mi fydd y dasg yma yn cael ei ail-redeg ar y ceisiadau sydd wedi eu cyflwyno ers hynny.

## 3. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

3.1 Mae cynghori ac asesu ceisiadau SDCau yn faes arbenigol sydd angen profiad a hyfforddiant technegol perthnasol. Fel y disgwyl, mae nifer y ceisiadau SDCau yn cynyddu.

3.2 Bydd cyflwyno tâl am wasanaeth ymgynghorol cyn-gais yn galluogi'r gwasanaeth i adennill ychydig o'r gost sydd ynghlwm a darparu. Tra yr ydym yn awyddus i barhau i gynnig elfen o'r gwasanaeth cyn gais yn ddigost, amcan y CCS yw bod yn hunan gynhaliol o ran costau.

3.3 Y bwriad cychwynnol yw gosod ffioedd cyngor cyn-gais ar gyfran o 30% o'r ffi cais llawn. Credir y bydd hyn yn ddigonol i dalu am amser staff fydd ynghlwm â ymgynghori, craffu'r wybodaeth a dderbynnir, mynychu cyfarfodydd gyda datblygwyr a darparu adborth swyddogol. Bydd angen taliad ffi ychwanegol os bydd sawl cyflwyniad neu ddiwygiad o gais yn cael eu gwneud ac os bydd y gwaith hynny yn mynd dros y trothwy a ddisgrifir yn Atodiad 1.

3.4 Ar gyfer unrhyw waith sy'n mynd dros y trothwy a ddisgrifir yn Atodiad 1, bydd ffi unigryw, yn seiliedig ar gostau fesul awr, yn cael ei godi er mwyn darparu'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd, cynnal adolygiad technegol atodol o fanylion dylunio diwygiedig, presenoldeb y CCS ar ymweliadau safle ayyb. Ar gyfer gwasanaeth o'r fath bydd y CCS yn paratoi amcan o'r ffi gan gadarnhau'r gwasanaethau a gynigir yn ogystal â dadansoddiad o gost pob un er mwyn i'r ymgeisydd ei ystyried cyn symud ymlaen a'r gwasanaeth.

3.5 Mae Tabl 1 yn nodi'r ffioedd a fwriedir eu codi gan Gorff Cymeradwyo SDCau Gwynedd, a hynny yn seiliedig ar faint yr ardal ddatblygu a'r lefel o wasanaeth fydd yn cael ei ddarparu. Mae'r ffioedd a'r maint ardaloedd yn unol â'r raddfa ffioedd cais sydd wedi eu pennu yn unol â'r Rheoliadau.

3.6 Tabl 1

| Maint y datblygiad | Ffi cyn-gais y CCS |
|---|---|
| 0 – 0.1ha (isafswm ffi) | £126 |
| 0.5 ha | £210 |
| 1.0 ha | £285 |
| 5.0 ha | £525 |
| 10.0 ha | £675 |
| 65.0 (uchafswm ffi) | £2250 |

3.7 Mae Atodiad 1 hefyd yn cynnwys y gwasanaethau hynny na fydd yn cael eu cynnwys yn y broses statudol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori uniongyrchol rhwng y Corff Cymeradwyo SDC a'r ymgynghorai statudol a ddiffinnir yn y ddeddf.

3.8 Bydd y broses yn cael ei monitro yn fanwl. Mae hyn er mwyn sicrhau fod y strwythur yn rhesymol ac nad yw'n arwain at godi ffioedd gormodol ar yr ymgeiswyr nac yn arwain at adennill costau rhedeg y gwasanaeth gan y Cyngor.

**4. Ystyriaethau perthnasol**

4.1 Byddai rhoi'r hawl i'r Corff Cymeradwyo SDCau godi ffi am y gwasanaeth ymgynghorol cyn-gais yn golygu mwy o geisiadau SDC llawn o ansawdd uchel sy'n cyrraedd gofynion y Rheoliadau. Bydd hyn yn arwain at lai o geisiadau angen eu hail-ddylunio / eu gwrthod ar ôl i'r cais llawn gael ei roi mewn gan felly leihau'r amser rhwng cyflwyno cais a chychwyn ar yr adeiladu, sydd yn greiddiol i'r cwsmer. Byddai hefyd yn helpu cwrdd o'r gost ariannol o ddarparu'r gwasanaeth.

4.2 Bydd hefyd yn hwyluso gallu'r CCS i gwrdd â'r gofyn statudol i benderfynu ar geisiadau arferol o fewn 7 wythnos, a 11 wythnos ar gyfer ceisiadau sydd angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol.

4.3 Mae'r trefniadau hyn yn gyson gyda'r trefniadau sydd wedi ei sefydlu mewn awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru. Mae nifer o Cynghorau yn codi ffi ar gyfer y gwasanaeth cyn gais yn barod, megis Cynghorau Caerdydd, Caerphilly, Rhondda Cynon Taf a Sir Benfro, gyda dim elfen o'r gwasanaeth am ddim. Yn y Gogledd mae Cyngor Wrecsam wedi mabwysiadau trefniadau tebyg ir hyn y sydd yn cael ei gynnig yma, a mae bwriad gan gynghorau eraill y Gogledd i ddilyn yr un trywydd.

**5.0 Camau nesaf ac amserlen**

5.1 Yn ddibynnol ar y cais yma yn cael ei gymeradwyo, y bwriad yw rhoi trefniadau mewn lle i godi a derbyn y ffi cyn gais erbyn mis Awst 2020.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r egwyddor o godi ffioedd am wasanaeth Cyn-gais yn dderbyniol ac mae canllawiau Lywodraeth Cymru ar CCS yn cyfeirio yn benodol at hyn. Mae gwasanaeth Cyn-gais yn golygu gwaith sylweddol o ochr swyddogion sydd o fudd i ddatblygwyr ac yn golygu mewnbwn proffesiynol buan er mwyn miniogi ceisiadau. Mae hyn yn wasanaeth ychwanegol sydd yn cael ei ddarparu sydd gyda costau ynghlwm. Mae trefniadau monitro wedi ei nodi er mwyn sicrhau fod y strwythur yn rhesymol, ac nodaf fod lefelau'r ffioedd yn gyson ag awdurdodau eraill. Dim sylwadau pellach o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mi fydd cymeradwyo'r hawl i godi ffi nid yn unig yn dod ag incwm ychwanegol i'r Cyngor i ariannu'r Uned, ond hefyd yn hwyluso'r broses ddylunio i'r cwsmer gan osgoi gorfod ail-gyflwyno ceisiadau fydd yn arbed amser iddynt yn y pendraw.

---

**Atodiadau**

*Atodiad 1 – Gwasanaeth a ffioedd ymgynghorol cyn-gais y Corff Cymeradwyo SDCau*

***Atodiad 1*** *- Gwasanaeth a ffioedd ymgynghorol cyn-gais y Corff Cymeradwyo SDCau*

<table>
<tr><th>Gwasanaeth</th><th>Maint y cais</th><th>Ffi</th><th>Disgrifiad o'r gwasanaeth</th></tr>
<tr><td>Trafodaeth cyn-gais</td><td>Pob safle</td><td>Dim tâl</td><td>Cyfarfod neu drafodaeth hyd at awr o hyd yn swyddfeydd y CCS neu dros y ffôn er mwyn trafod safonau a gofynion Systemau Draenio Cynaliadwy a chyflwyno'r gwasanaeth ymgynghori cyn-gais os yn berthnasol.</td></tr>
<tr><td rowspan="6">Gwasanaeth ymgynghorol cyn-gais<br><br>(Noder: Ni fydd y gwasanaeth yma yn ymgynghori gydag ymgynghorai statudol. Caiff ymgeiswyr eu cynghori i ymgynghori yn uniongyrchol a hwy ble'n berthnasol)</td><td>0 to 0.1ha (isafswm ffi)</td><td>£126</td><td rowspan="6">Cam 1: Cyfarfod gyda'r Swyddog CCS sy'n arolygu am hyd at 2 awr. Mae'n gyfle i'r ymgeisydd gyflwyno eu strategaeth ddraenio arfaethedig er mwyn trafod a chael adborth a sylwadau cychwynnol.<br><br>Cam 2: Adolygiad technegol ffurfiol a dogfennau wedi eu cyflwyno yn dilyn cyfarfod Cam 1. Darperir adroddiad cryno yn rhoi barn ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cynllun draenio arfaethedig â phob un o'r 6 Safon Cenedlaethol a'r egwyddorion sy'n sail i'r safonau hynny o fewn 21 diwrnod gwaith i gyflwyno'r cais.<br><br>Noder: mae lefel y manylion a ddarperir yn ddibynnol ar y wybodaeth a geir yn ystod y cyfnod cyn-gais a bydd ond yn bosib darparu adborth ar y safonau os bydd y wybodaeth/dogfennaeth berthnasol wedi eu cynnwys yn y broses cyn-gais.</td></tr>
<tr><td>0.1 i 0.5 ha</td><td>£126 - £210</td></tr>
<tr><td>0.5 i 1.0 ha</td><td>£210 - £285</td></tr>
<tr><td>1.0 i 5.0 ha</td><td>£285 - £525</td></tr>
<tr><td>5.0 i 10.0 ha</td><td>£525 - £675</td></tr>
<tr><td>10.0 i 65 ha (uchafswm ffi)</td><td>£675 - £2250</td></tr>
<tr><td>Gwasanaeth ychwanegol</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>Yr awr</td><td>Darpariaeth o wasanaethau ychwanegol gan gynnwys:</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sydd ddim wedi ei fanylu'n rhan o'r gwasanaeth ymgynghorol cyn-gais.** | | | **mynychu cyfarfodydd, adolygiad technegol atodol o ddyluniadau wedi eu hadolygu/newid, ymweliadau safle ychwanegol ayyb.** |